

**Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**  
**Cynllun Datblygu Lleol**

**Canllawiau Cynllunio Atodol**  
**Polisi 65: Diogelu Mwynau**  
**Mawrth 2015**

**Echdynnu Ymlaen Llaw mewn Parthau Diogelu Mwynau**

## Cynnwys

<a href="#">1.0</a>	<a href="#">Cyflwyniad</a> .....	2
<a href="#">2.0</a>	<a href="#">Cyd-destun Polisi</a> .....	2
<a href="#">3.0</a>	<a href="#">Ystyriaethau Manwl</a> .....	3
	<a href="#">A</a> <a href="#">STERILEIDDIO MWYNAU</a> .....	3
	<a href="#">B</a> <a href="#">ECHDYNNU YMLAEN LLAW</a> .....	4
<a href="#">4.0</a>	<a href="#">Cysylltiadau defnyddiol</a> .....	6
<a href="#">5.0</a>	<a href="#">Geirfa</a> .....	7
	Atodiad 1 Cais Cynllunio mewn Ardal Diogelu Mwynau .....	8

## **1.0 Cyflwyniad**

- 1.1 Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol yma yn darparu gwybodaeth er mwyn hwyluso ystyried ceisiadau cynllunio mewn ardaloedd diogelu mwynau yn y Parc Cenedlaethol.
- 1.2 Mae echdynnu ymlaen llaw yn cyfeirio at dynnu adnoddau mwynau y gellir eu caffael drwy ddulliau cloddio brig ar safleoedd datblygu, cyn cychwyn ar waith adeiladu. Nid yw'n ofynnol i ystyried tynnu adnoddau mwynau sy'n bodoli'n ddyfnach o dan safle'r datblygiad, y gellir eu hechdynnu drwy waith tanddaearol yn unig.
- 1.3 Mae echdynnu adnoddau mwynau ar yr wyneb ymlaen llaw yn atal adnoddau mwynau potensial werthfawr rhag cael eu sterileiddio'n ddiangen, a gall hefyd gynorthwyo gwaith adfer elfennau gwaddol ar dir a ddatblygwyd eisoes. Fodd bynnag, ni fydd echdynnu ymlaen llaw yn briodol bob amser.

## **2.0 Cyd-destun polisi**

- 2.1 Mae Polisi Cynllunio Mwynau Cymru (PCMC) yn cyflwyno'r egwyddor o ddiogelu mynediad i adnoddau mwynau y bydd eu hangen efallai gan genedlaethau'r dyfodol, ac mae'n darparu ar gyfer ystyried y posibilrwydd o echdynnu adnoddau mwynau economaidd cyn cychwyn ar fathau eraill o ddatblygiadau. Dyma yw sail Polisi 65 y CDLI a'r wybodaeth ynglŷn â diogelu mwynau a gynhwysir ar y Map Cynigion cysylltiedig.
- 2.2 Mae Polisi 65 yn gosod y cyd-destun ar gyfer gwneud penderfyniadau ar echdynnu ymlaen llaw, ond wrth ystyried gofynion echdynnu ymlaen llaw posibl dan Bolisi 65, bydd angen ystyried gofynion polisiâu CDLI perthnasol eraill hefyd. Bydd gwerthuso cynnig i ddatblygu yn y cyd-destun hwn yn bwysig o ran ffurfio safbwynt ynglŷn ag a yw'r cynnig yn dderbyniol neu beidio ac a yw echdynnu ymlaen llaw yn briodol neu beidio.
- 2.3 Mae Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) 2 ynglŷn â Glo (NCTM2), paragraff 42, hefyd yn cyfeirio at yr angen i ystyried echdynnu ymlaen llaw, pan gynigir datblygu ar yr adnoddau glo.
- 2.4 Mae Map Cynigion y Cynllun Datblygu Lleol yn dangos maint gofodol yr adnoddau mwynau a ddiogelir.
- 2.5 Mae'r canllawiau yma yn nodi'r materion y mae angen delio â hwy pan gyflwynir ceisiadau ar barthau diogelu mwynau. Mae'r siart llif a atodir yn Atodiad 1 yn nodi'r broses hon.

### 3.0 Ystyriaethau Manwl

- 3.1 Mae angen mynd drwy gyfres o gamau er mwyn sefydlu a oes angen i ddatblygiad gael ei wneud mewn ardal diogelu mwynau, ac os sefydlir bod angen gwneud hynny, rhaid sefydlu a ellir echdynnu'r mwynau cyn cychwyn ar y gwaith datblygu.
- 3.2 Mae'r siart llif a atodir yn dangos y prosesau a'r cwestiynau y dylid eu hateb. Dylai'r nodiadau canlynol helpu gyda hyn. Yn yr achos cyntaf, pan na ddarperir digon o wybodaeth, bydd yr Awdurdod yn ceisio'r wybodaeth angenrheidiol. Bydd dull cymesur yn cael ei ddefnyddio; bydd lefel y wybodaeth fyd ei hangen yn dibynnu ar fanylion penodol y datblygiad arfaethedig. Os na fydd hyn yn cael ei ddarparu, mae'n debyg y bydd y cais yn cael ei wrthod ar sail diffyg cyfiawnhad priodol.

## A STERILEIDDIO MWYNAU

### A1 A yw hwn yn gais deiliad tŷ neu'n gais o fewn cwrtil presennol?

Mae'n debyg bod unrhyw adnodd mwynau o dan safleoedd o'r fath wedi ei sterileiddio gan ddatblygiad parhaol ac ni ystyrir bod echdynnu ymlaen llaw yn ddichonadwy na phriodol. Felly ni fydd angen ystyried echdynnu ymlaen llaw yn achos y math yma o geisiadau.

### A2 Ai datblygiad dros dro yw hwn?

Ni fydd cynigion datblygu dros dro, hyd yn oed rhai fydd yn parhau am nifer o flynyddoedd, yn sterileiddio adnodd mwynau economaidd yn barhaol ac felly ni fydd angen ystyried echdynnu ymlaen llaw. Fodd bynnag, efallai y byddai'n ddoeth defnyddio amodau cynllunio neu rwymedigaethau cynllunio er mwyn sicrhau bod adeiladau / seilwaith yn cael eu gwaredu ar ddiwedd cyfnod y caniatâd i sicrhau bod y tir yn cael ei adfer i'w gyflwr blaenorol. Mae hyn yn digwydd eisoes mewn rhai achosion, e.e. pan fo caniatâd dros dro yn cael ei roi ar gyfer gosodiadau ynni adnewyddadwy.

### A3 A yw hwn yn ddatblygiad amaethyddol nad yw'n sensitif neu'n ddatblygiad sy'n gysylltiedig â choedwigaeth?

Mae nifer sylweddol o ddatblygiadau amaethyddol a datblygiadau sy'n gysylltiedig â choedwigaeth yn 'ddatblygiadau a ganiateir' o dan ddarpariaethau Rhan 6 a Rhan 7 Atodlen 2 Gorchymyn Cynllunio Tref a Gwlad (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995. Fodd bynnag, mae datblygiadau sy'n gysylltiedig ag amaeth a choedwigaeth sydd angen hawl benodol neu ganiatâd cynllunio yn tueddu i fod ar gyfer siediau, tanciau slyri a lagwnau, llawr caled a thraciau sy'n gymharol hawdd i'w dadwneud, ac felly nid ydynt yn creu'r effaith o sterileiddio adnoddau mwynau economaidd yn barhaol. Nid yw hyn yn gymwys i anheddau amaethyddol neu anheddau coedwigaeth oherwydd byddai'r rhain yn ddatblygiadau 'sensitif'<sup>1</sup> a fyddai nid yn unig yn sterileiddio'r adnodd yn y safle ei hun ond a fyddai hefyd yn sterileiddio adnoddau o fewn parth byffer posibl o gwmpas yr annedd.

### A4 A yw'r safle wedi ei leoli y tu mewn i'r Cynllun Datblygu Lleol?

---

<sup>1</sup> Datblygiad 'sensitif' yw unrhyw adeilad y mae pobl yn trigo ynddo yn rheolaidd ac mae'n cynnwys ardaloedd o dai, hostelau, mannau cyfarfod, ysgolion ac ysbytai ble dylid disgwyl safon dderbyniol o amwynder. Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) 1: Agregau (2004), paragraff 70

Mae'r angen am ddyraniadau eisoes wedi ei sefydlu yn y Cynllun Datblygu Lleol ac mae mater diogelu eisoes wedi cael ei ystyried. Mae dal angen ystyried echdynnu ymlaen llaw hyd yn oed ar safleoedd a glustnodwyd.

**A5** A oes lleoliad arall addas ar gael y tu allan i'r Ardal Diogelu Mwynau?

Cyn belled â phosibl, dylai cynigion osgoi datblygu ar ardaloedd diogelu mwynau. Bydd angen i ymgeiswyr ddangos pam mai hwn yw'r unig safle addas ar gyfer y cynnig, a bydd raid cyflwyno'r achos dros leoli'r datblygiad mewn ardal diogelu mwynau. Os bydd lleoliad arall addas ar gael y tu allan i'r Ardal Diogelu Mwynau, dylid ail-leoli'r datblygiad.

**A6** A oes angen dirfawr am y datblygiad?

Bydd angen i'r datblygwr sefydlu'r angen am ddatblygiad newydd mewn ardal diogelu mwynau fydd yn sterileiddio'r adnodd o dan y safle, neu yn achos 'datblygiad sensitif' newydd<sup>2</sup>, pan mai'r effaith fyddai ymestyn y parth byffer i'r ardal diogelu mwynau. Hefyd byddai angen i ddatblygwyr sefydlu beth fyddai effaith sterileiddio cronol cynyddrannol pan fo datblygiad newydd yn digwydd wrth ymyl ffiniau anheddiad.

Bydd y caniatâd yn cael ei roi os bydd yr angen yn cael ei sefydlu. Gall hyn gynnwys anghenion y gymuned, yr angen am dai fforddiadwy, a'r angen ffwythiannol i fusnes neu fenter bresennol ehangu ar dir cyfagos. Os na fydd angen i'r datblygiad ddigwydd mewn ardaloedd diogelu mwynau, mae'n debyg y bydd y caniatâd yn cael ei wrthod. Mae'n rhaid i geisiadau sy'n dderbyniol o dan y rhan hon o'r Polisi fynd ymlaen i ystyried a yw echdynnu'r adnodd ymlaen llaw yn bosibl.

## **B ECHDYNNU YMLAEN LLAW**

**B1** A fyddai effeithiau echdynnu ymlaen llaw ar y tirlun yn niweidiol i nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol?

Bydd cymeriad tirlun y safle a chyd-destun y tirlun yn ystyriaeth berthnasol. Gallai echdynnu ymlaen llaw greu effaith weledol niweidiol sylweddol yn ogystal ag effaith weledol niweidiol sylweddol ar gymeriad y tirlun. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddarparu gwybodaeth berthnasol i'r Awdurdod mewn perthynas ag effaith echdynnu ymlaen llaw ar y tirlun. Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael iddo, bydd yr Awdurdod yn ystyried a yw ystyriaethau mewn perthynas â thirlun yn gorbwyso'r angen am echdynnu ymlaen llaw.

**B2** A oes yna nodweddion hanesyddol cydnabyddedig y mae'n rhaid eu cadw?

Bydd nodweddion hanesyddol a'u lleoliad ar y safle yn ystyriaeth berthnasol hefyd. Gall echdynnu ymlaen llaw ddinistrio'r nodweddion hyn a/neu newid ble maent wedi eu lleoli, felly mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddarparu gwybodaeth berthnasol i'r Awdurdod mewn perthynas ag effaith echdynnu ymlaen llaw ar nodweddion hanesyddol. Mae'n rhaid darparu gwybodaeth hefyd ar yr effaith ar dirluniau hanesyddol. Bydd yr Awdurdod yn ystyried a yw unrhyw effeithiau niweidiol ar nodweddion hanesyddol, eu lleoliad, neu ar dirlun hanesyddol yn gorbwyso'r angen am echdynnu ymlaen llaw.

---

**B3 A oes yna unrhyw gynefinoedd, coed, gwrychoedd / cloddiau pwysig y mae'n rhaid eu cadw?**

Bydd nodweddion ecolegol a bioamrywiaeth y safle yn ystyriaeth bwysig. Gall echdynnu ymlaen llaw ddinistrio'r nodweddion hyn, felly mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddarparu gwybodaeth berthnasol i'r Awdurdod mewn perthynas ag effaith ecolegol echdynnu ymlaen llaw. Bydd yr Awdurdod yn ystyried a yw ystyriaethau ecolegol a bioamrywiaeth yn gorbwysu'r angen am echdynnu ymlaen llaw.

**B4 A fydd echdynnu ymlaen llaw yn niweidiol i adnoddau dŵr tir?**

Efallai bod yna botensial i echdynnu ymlaen llaw effeithio'n niweidiol ar y lefel trwythiad lleol neu ar ddyfrhaen dŵr tir a warchodir. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddarparu gwybodaeth berthnasol i'r Awdurdod mewn perthynas ag effaith echdynnu ymlaen llaw ar ddŵr tir. Bydd yr Awdurdod yn ystyried a yw'r ystyriaethau hyn yn gorbwysu'r angen am echdynnu ymlaen llaw.

**B5 Ai craig galed yw'r adnodd ac a yw o fewn 200 metr i ddatblygiad sensitif presennol?**

Fel rheol mae angen defnyddio ffrwydron er mwyn echdynnu craig galed. Mae canllawiau cynllunio cenedlaethol yn nodi na ddylid defnyddio ffrwydron o fewn parth byffer o 200m o gwmpas datblygiad 'sensitif' presennol. Bydd gofyn i'r ymgeisydd ddangos na ellir echdynnu'r adnodd oherwydd defnydd sensitif presennol o fewn parth byffer perthnasol y datblygiad arfaethedig ac y byddai gwaith mwynau yn effeithio'n sylweddol niweidiol ar bobl sy'n byw, ymweld ac yn gweithio yn y datblygiad sensitif hwnnw.

**B6 Ai tywod a graean yw'r adnodd (neu adnodd arall nad oes angen defnyddio ffrwydron i'w echdynnu) ac a ydyw o fewn 100 metr o ddatblygiad sensitif presennol?**

Ar safleoedd tywod a graean a safleoedd craig galed pan nad oes angen defnyddio ffrwydron, mae'r parth byffer yn 100m o gwmpas datblygiad 'sensitif'. Bydd gofyn i'r ymgeisydd ddangos na ellir echdynnu'r adnodd oherwydd defnydd sensitif presennol o fewn parth byffer perthnasol y datblygiad arfaethedig a bod yr adnodd mwynau eisoes wedi'i sterileiddio.

**B7 A oes yna resymau pam na ellir echdynnu ymlaen llaw?**

Efallai na fydd echdynnu ymlaen llaw yn briodol am nifer o resymau. Gallai niweidio'r datblygiad, oedi'r datblygiad y tu hwnt i amserlen resymol, efallai nad yw'n dechnegol ddichonadwy, efallai nad yw swm ac ansawdd y mwynau yn briodol, neu efallai nad oes marchnad leol ar gyfer y deunyddiau. Bydd gofyn i'r datblygwr ddangos pam nad yw echdynnu'r mwynau yn ymarferol neu'n ddichonadwy. Bydd gofyn hefyd i'r datblygwr ddangos pam na fyddai'n bosibl addasu'r cynnig er mwyn osgoi sterileiddio ac nad yw adnoddau yn cael eu sterileiddio'n gynyddraddol arwyddocaol yn gyfunol â datblygiadau eraill yng nghyffiniau safle'r cais.

Pan nad oes rhesymau cyfiawnadwy dros fethu echdynnu ymlaen llaw, bydd angen cais cynllunio ar wahân er mwyn asesu sut y dylid trin y mwynau. Bydd yr Awdurdod yn penderfynu ar gais cynllunio i echdynnu'r mwynau ymlaen llaw cyn y gall datblygiad parhaol adeiledig fynd yn ei flaen.

## **4.0 Cysylltiadau defnyddiol**

Mae mwy o wybodaeth ar gael gan

Yr Adran Gynllunio  
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog  
Plas y Ffynnon  
Ffordd Cambrian  
Aberhonddu  
Powys  
LD3 7HP

## 5.0 Geirfa

<b>Agregau</b>	Tywod, graean, craig fâl a deunyddiau swmp eraill a ddefnyddir gan y diwydiant adeiladu
<b>Mwynau</b>	Craig neu ddeunydd arall sydd â gwerth masnachol pan y'i hechdynnir
<b>Datblygiad Mwynau</b>	Unrhyw weithgaredd mewn perthynas â chwilio am neu gaffael a thrin mwynau, yn cynnwys tipio gwastraff a gwaith ategol megis defnyddio gweithfeydd prosesu.
<b>Awdurdod Cynllunio Mwynau (ACM)</b>	Yr awdurdod cynllunio sy'n gyfrifol am reolaeth cynllunio ar ddatblygiadau mwynau. Yn yr achos hwn, Awdurdod y Parc Cenedlaethol yw'r Awdurdod Cynllunio Mwynau ar gyfer yr ardal.
<b>Polisi Cynllunio Mwynau Cymru (PCMC) (2001)</b>	Dogfen bolisi a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n nodi'r canllawiau polisi cynllunio ynghylch defnydd tir mewn perthynas ag echdynnu mwynau a datblygiadau cysylltiedig yng Nghymru, sy'n cynnwys yr holl fwynau a sylweddau yn, ar neu o dan dir a echdynnir naill ai drwy waith tanddaearol neu waith ar yr wyneb.
<b>Adnodd Mwynau</b>	Dyddodion mwynau potensial pan nad yw ansawdd na swm y mwynau sy'n bresennol wedi ei brofi.
<b>Cronfeydd Mwynau</b>	Dyddodion mwynau sydd wedi'u profi er mwyn sefydlu ansawdd a swm y mwynau sy'n bresennol y gellid eu defnyddio'n economaidd a thechnegol.
<b>Ardal Diogelu Mwynau</b>	Ardal ble ceir adnodd mwynau hysbys a warchodir rhag sterileiddio ar gyfer defnydd yn y dyfodol.
<b>Echdynnu Ymlaen Llaw</b>	Tynnu adnoddau mwynau y gellir eu caffael drwy ddulliau cloddio brig ar safleoedd datblygu, cyn cychwyn ar waith adeiladu.
<b>Sterileiddio</b>	Pan fo datblygu neu newid defnydd tir o bosibl yn atal defnyddio mwynau yn y dyfodol rhagweladwy.



## Cais Cynllunio mewn Ardal Diogelu Mwynau

### STERILEIDDIO MWYNAU

### ECHDYNNU YMLAEN LLAW

